



Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2017/18

5 Rhagfyr 2018
SFR 120/2018

Newidiadau i'r modd y cynhyrchir yr ystadegau hyn

O 2017/18, yn dilyn argymhellion gan adolygiadau annibynnol a newidiadau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru nid yw cymwysterau galwedigaethol yn y wyddoniaeth bellach yn cyfri tuag at yr elfen Gwyddoniaeth yn y mesuriadau perfformiad. Mae hyn wedi cael effaith mwy ar ddisgyblion a hawl i brydau ysgol am ddim (PYD).

O 2016/17 mae newidiadau i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 (CA4) wedi effeithio ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Ceir rhagor o fanylion yn yr [Erthygl ar fesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru](#).

Canlyniadau allweddol ar gyfer 2017/18 (CA4):

- 55.1 y cant o ddisgyblion yn cyflawni 5 TGAU (neu gyfatebol) gradd A*-C yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg (trothwy lefel 2 cynwysedig)
- 29.5 y cant o ddisgyblion a hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) yn cyflawni'r trothwy lefel 2 cynwysedig o'i gymharu â 61.7 y cant o'r rhai a dim hawl.
- Y sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio oedd 349.5 (tebyg i 2016/17; 350.9).
- 64.9 y cant o ddisgyblion yn cyflawni gradd TGAU A*-C yn Saesneg /Cymraeg Iaith Gyntaf.
- 63.6 y cant o ddisgyblion yn cyflawni gradd TGAU A*-C grade yn unai Mathemateg neu Rifedd.
- 18.0 y cant o ddisgyblion yn cyflawni 5 gradd A*-A TGAU (neu gyfatebol).

Disgyblion 17 oed (CA5)

- 9,452 (89.1 y cant o) ddisgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o gymwysterau yn gyfatebol i 2 lefel A.
O'r rhain:
 - 97.6 y cant yn cyflawni 2 gradd A*-E lefel A (trothwy Lefel 3).
 - 57.9 y cant yn cyflawni 3 gradd A*-C.
 - 13.4 y cant yn cyflawni 3 gradd A*-A.

Am y datganiad

Mae'r Datganiad Ystadegol yn cyflwyno dadansoddiad dros dro o arholiadau allanol disgyblion ym mlwyddyn 11 (CA4) neu digyblion 17 oed yn y chweched dosbarth (CA5) ar ddechrau y flwyddyn academaidd yn 2017/18 ac yn ysgolion yng Nghymru. Gwelwch y [tablau cysylltiedig](#) am ragor o ddata a wybodaeth.

Yn y datganiad:

Disgyblion bl. 11 (CA4)

Prif ddangosyddion	2
Awdurdodau Lleol	3
Perfformiad pynciau	4
Prydau ysgol am ddim	6

Disgyblion 17 oed

Prif ddangosyddion	7
Awdurdodau Lleol	8
Perfformiad Pynciau	9

Annecys


Diffiniadau	10
Nodiadau	11

Disgyblion Blwyddyn 11 (CA4)

Prif ddangosyddion

Mae gwneud cymariaethau â pherfformiad cyn 2016/17 yn anodd oherwydd newidiadau sylweddol yn y modd y cyfrifir y dangosyddion. Gweler y diffiniadau (tudalen 10) am ragor o wybodaeth.

Siart 1: Canran y disgyblion ym mlwyddyn 11 yn cyflawni amryw o drothwyon



Bu cynnydd o hanner pwynt canran, i 55.1 y cant, dros y flwyddyn flaenorol yn y canran o ddisgyblion yn cyflawni 5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys Mathemateg a Saesneg/Cymraeg (trothwy cynwysedig lefel 2).

Mae merched yn parhau i berfformio yn well na bechgyn; roedd y bwlch yn y trothwy cynwysedig lefel 2 yn 10.5 pwynt canran, ehangiad o 8.1 pwynt canran yn 2016/17.



60.5% o ferched yn ennill 5 TGAU gradd A*-C (gan gynnwys Mathemateg & Saesneg/Cymraeg) o'i gymharu â **50.1%** o fechgyn



Y sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio

Mae'r sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio yn un o'r prif ddangosyddion yn y Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyflwynwyd y sgôr yn 2016/17 ac mae'n ffocysu ar ganlyniadau disgyblion Blwyddyn 11 ar gyfer naw o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion penodol i bynciau. Rhaid cynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg, Rhifedd a dau TGAU Gwyddoniaeth. [Mae disgrifiad o'r sgôr ac esboniad o'r methodoleg ar gael.](#)


349.5

sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio yn 2017/18
(350.9 yn 2016/17)

Fel canllaw, mae gradd A TGAU gwerth 52 pwynt, mae gradd B gwerth 46 pwynt, gradd C gwerth 40 pwynt ac yn y blaen. Roedd cyfartaledd y sgôr eleni ychydig yn is na'r hyn sy'n cyfateb i 9 radd C (360 pwynt).

Awdurdodau Lleol

Siart 2: Canran y disgyblion blwyddyn 11 yn cyflawni'r trothwy cynwysedig lefel 2 fesul rhanbarth ac Awdurdod Lleol, 2017/18




Yn 2017/18 y rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru oedd gyda'r canran uchaf o ddisgyblion ym mlwyddyn 11 yn cyflawni'r trothwy cynwysedig lefel 2 gyda 57.8 y cant, tra roedd y canran isaf yn Ne-ddwyrain Cymru gyda 51.4 y cant.

Fesul Awdurdod Lleol, ym Mro Morgannwg oedd y canran uchaf gyda 66.3 y cant tra roedd y canran isaf ym Merthyr Tydfil gyda 42.7 y cant.

Perfformiad yn y pynciau

Siart 3: Canran y disgyblion ym mlwyddyn 11 yn cyflawni gradd A*-C fesul pwnc unigol



(a) O 2016/17, cymerir y radd orau o laith Saesneg ac laith Gyntaf Cymraeg. Yn flaenorol, derbyniwyd Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg hefyd.

(b) O 2016/17, dim ond laith sydd wedi'i gynnwys. Derbyniwyd Llenyddiaeth gynt hefyd.

(c) Yr enwadur a ddefnyddir ywnifery disgyblion a gofrestrwyd am Cymraeg laith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm nifer y disgyblion.

(d) O 2016/17, cymerir y radd gorau o Mathemateg a Mathemateg - Rhifedd. Yn flaenorol, dim ond un TGAU Mathemateg oedd ar gael.

Mae'r gostyngiad yn A*-C yng Ngwyddoniaeth oherwydd nid yw cymwysterau galwedigaethol gwyddoniaeth yn cael eu cynnwys yn y dangosydd hwn o eleni ymlaen.

Dyma'r ail flwyddyn lle disgwylir pob disgybl i gofrestru am 2 TGAU ym Mathemateg - TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg - Rhifedd. Bu cynnydd yn y canran yn cyflawni A*-C yn un o'r pynciau yma i 63.6 y cant.

Mae perfformiad yn Saesneg / Cymraeg laith Gyntaf yn debyg i 2016/17 gyda 64.9 y cant o ddisgyblion yn ennill gradd A*-C. Noder o 2016/17 dim ond laith Saesneg/Cymraeg sydd yn cyfri tuag at y mesur, ond cyn y dyddiad hwn roedd llenyddiaeth yn cyfri hefyd.

laith Gymraeg


17.3%

o ddisgyblion (5,266 allan o 30,371) wedi cofrestru am TGAU Cymraeg laith Gyntaf

74.3 o'r disgyblion a gofrestrwyd am Gymraeg laith Gyntaf yn ennill gradd A*-C. Mae'r canran o ddisgyblion yn cofrestru wedi cynyddu yn gyson, i fyny o 17.1 y cant yn 2016/17.

Ceir data llawn fesul pwnc gyda dosbarthiad y graddau yn y [tablau atodol](#).

Siart 4: Pynciau gyda'r nifer uchaf o gofrestriadau a chanran graddau A*-C cyfatebol, 2017/18




Fel y disgwylir, mae'r nifer uchaf o gofrestriadau ar gyfer TGAUym Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth (noder fod dyfarniad dwbl yn cyfri fel dau gofrestriad TGAU)

Y pynciau mwyaf poblogaidd ar ôl rhain oedd Cymraeg Ail iaith ac Addysg Grefyddol, gyda 13,342 a 11,870 o gofrestriadau yn y drefn honno.

Yn 2017/18 roedd rhwng 88 a 90 y cant o TGAUau yng Nghemeg, Ffiseg a Gwyddorau Bioleg wedi'u graddio yn A*-C.

Ceir data llawn ar pob pwnc unigol a dosbarthiad eu graddau yn y tablau atodol.





Prydau ysgol am ddim (PYD)

Mae disgyblion sydd yn [gymwys i brydau ysgol am ddim](#) os mae os mae eu teulu yn derbyn rhai budd-daliadau / taliadau cymorth

Mae Siart 5 yn dangos maint y bwlch rhwng y rhai sydd yn gymwys i PYD a'r rhai sydd ddim.

Siart 5: Canran y disgyblion ym mlwyddyn 11 yn cyflawni amryw o drothwyon, fesul statws PYD, 2017/18

Cymwys am PYD a Dim yn gymwys am PYD



Mae disgyblion sydd ddim yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn gyson yn cyflawni canlyniadau uwch na disgyblion sydd yn gymwys.


Mae'r bwlch rhwng disgyblion sydd yn gymwys am PYD a'r rhai sydd ddim yn ehangu yn y lefelau cyrhaeddiad uwch. Roedd y bwlch yn y trothwy lefel 1 yn 9.1 pwynt canran, tra roedd y bwlch yn 32.2 pwynt canran ar gyfer y trothwy lefel 2 a'r trothwy cynwysedig lefel 2. Bu gostyngiad bach (0.1 pwynt canran) dros y flwyddyn flaenorol yn y bwlch yn y trothwy cynwysedig lefel 2

Gweler y tablau atodol ar gyfer rhagor o wybodaeth ar PYD, gan gynnwys canlyniadau fesul pwnc a model atchweliad yn dangos y perthynas rhwng PYD a pherfformiad.

Disgyblion 17 oed yn yr ysgol (Cyfnod Allweddol 5)


Prif ddangosyddion

Siart 6: Canran y disgyblion 17 oed yn cyflawni'r trothwy lefel 3



O'r disgyblion a gofrestrwyd am 2 lefel A neu fwy yn 2017/18, bu cynnydd o 0.4 pwynt canran yn y canran a enillodd 2 gradd A*-E (y trothwy lefel 3), yn cynyddu i 97.6 y cant.

Siart 7: Canran y disgyblion 17 oed yn cyflawni amryw o drothwyon lefel A



Bu cynnydd o 3.3 pwynt canran dros y flwyddyn flaenorol yn y canran o ddisgyblion a enillodd 3 gradd A*-C yn lefel A (neu gyfatebol). Yn yr un modd, bu cynnydd o 2.9 pwynt canran i 13.4 y cant yn y canran o ddisgyblion a enillodd 3 gradd A*-A.

Mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn yn CA5 ond mae'r bwch yn llai o lawer ar gyfer cyflawnwyr uchel (h.y. y rhai yn ennill 3 gradd A*-A).




64.2% o ferched yn ennill
3 lefel A gradd A*-C o'i
gymharu â **50.1%** o fechgyn

13.8% o ferched yn ennill
3 lefel A gradd A*-A o'i
gymharu â **13.0%** o fechgyn



Awdurdodau lleol

Siart 8: Canran y disgyblion a gofrestrodd am gyfaint o gymwysterau yn gyfatebol i 2 lefel A a gyflawnodd 2 lefel A gradd A*-E, fesul rhanbarth ac awdurdod lleol, 2017/18





Yn 2017/18, Canol De Cymru oedd y rhanbarth gyda'r canran uchaf o ddisgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o gymwysterau yn gyfatebol i 2 lefel A a gyflawnodd 3 lefel A gradd A*-C, gyda 61.9 y cant. Yn Ne-ddwyrain Cymru oedd y canran isaf gyda 52.4 y cant.

Fesul Awdurdod Lleol unigol, ym Mro Morgannwg oedd y canran uchaf o 3 A*-C gyda 68.5 y cant o'r rhai o gofrestrwyd am o leiaf 2 lefel A. Yn Nhorfaen oedd y canran isaf gyda 42.9 y cant. Noder nad oes chweched dosbarth ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tydfil.

Ar gyfer y cyflawnwyr uchaf, (h.y. rhai yn ennill 3 gradd A*-A), unwaith eto Bro Morgannwg oedd a'r canran uchaf, 19.5 y cant, tra roedd y canran isaf yn Sir Fôn gyda 7.7 y cant.

Perfformiad fesul pwnc

Siart 9: Pynciau gyda'r nifer uchaf o gofrestriadau a chanran graddau A*-C cyfatebol, 2017/18



Y lefel A mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn 2017/18 oedd Mathemateg gyda 2,426 o gofrestriadau. Ym Mathemateg mae un o'r cyfraddau uchaf o raddau A*-C o unrhyw bwnc lefel A, gyda 82.3 y cant o ddisgyblion yn ennill un o'r graddau hyn.

Almaeneg a Sbaeneg oedd y pynciau gyda'r cyfraddau uchaf o raddau A*-C yn 2017/18 gyda 90.9 y cant a 88.5 y cant yn y drefn honno o gofrestriadau yn ennill un o'r graddau hyn. Hanes oedd y pwnc poblogaidd gyda'r gyfradd A*-C uchaf yn 2017/18 gyda 88.0 y cant o gofrestriadau yn ennill gradd A*-C. Ar y llaw arall, yn TGCh oedd y canran isaf o raddau A*-C gyda 45.5 y cant.

Ceir gwybodaeth lawn fesul pwnc unigol a dosbarthiad eu graddau yn [tablau atodol](#).

Diffiniadau

Isod ceir rhestr o'r mesurau perfformiad a ddefnyddir trwy gydol y datganiad hwn a'u diffiniadau priodol.

Disgyblion ym mlwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

Lefel 1

5 TGAU (neu gyfatebol) gradd A*-G

Lefel 2

5 TGAU (neu gyfatebol) gradd A*-C

Lefel 2 cynhwysol

5 TGAU (neu gyfatebol) gradd A*-C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg neu Rifedd.

Y sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio

Mae'r sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio yn ffocysu ar ganlyniadau disgyblion Blwyddyn 11 ar gyfer naw o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion penodol i bynciau. Rhaid cynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg, Rhifedd a dau TGAU Gwyddoniaeth.

[Mae disgrifiad o'r sgôr ac esboniad o'r methodoleg ar gael](#)

Disgyblion 17 oed (Cyfnod Allweddol 5)

Lefel 3

2 Lefel A (neu gyfatebol) gradd A*-E fel canran o'r rhai a gofrestrodd am 2 neu fwy.

3 A*-C

3 gradd A*-C lefel A (neu gyfatebol) fel canran o'r rhai a gofrestrodd am 2 neu fwy.

3 A*-A

3 gradd A*-A lefel A (neu gyfatebol) fel canran o'r rhai a gofrestrodd am 2 neu fwy.

Newidiadau a chymhariaethau

O 2017/18 ymlaen nid yw cymwysterau galwedigaethol gwyddoniaeth yn cyfri tuag at yr elfen gwyddoniaeth o'r rhai o'r mesurau perfformiad. Mae hyn yn cynnwys y sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio a lefel 2 gwyddoniaeth.

Cap ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU o ran mesurau trothwy

O 2016/2017 ymlaen, bydd uchafswm o 2 gymhwyster galwedigaethol (hynny yw, cymwysterau nad ydynt yn TGAU) yn cyfri tuag at fesurau trothwy, yn ddibynnol ar faint y cymhwyster (hynny yw, dim mwy na 40% o'r trothwy). Ynghyd a'r cymwysterau llenyddiaeth ddim yn cyfri tuag at yr

elfennau llythrennedd yn y sgôr pwyntiau' neu Lefel 2 cynwysedig, mae hyn yn golygu ni ddylech gymharu data o 2016/17 ymlaen gyda blynyddoedd blaenorol.

O 2015/16 ymlaen, caiff perfformiad ysgol ei adrodd bellach ar sail carfan Blwyddyn 11 yn hytrach na disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn. Hefyd cyflwynwyd terfyn ar werth cyfraniad cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau TGAU i fesurau perfformiad. Golyga hyn y bydd gan unrhyw gymhwyster unigol ar Lefel 1 neu Lefel 2 uchafswm cyfwerthedd, o ran perfformiad, o 2 TGAU, sy'n berthnasol i bob mesur.

Nodiadau

Statws ystadegau gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, gan nodi cydymffurfiaeth â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Gwladol. Maent yn cael statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan gorff rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfiaeth â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu i benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r safonau a ddisgwyllir gan Ystadegau Gwladol. Os ydym yn ansicr ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod ar frys. Gellir tynnu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu bodloni, a'i ailosod pan fydd y safonau hyn wedi'u bodloni unwaith eto.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yw nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef creu Cymru fwy cyfartal, lewyrchus, cydnerth ac iach, sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, â chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Cafodd y 46 dangosydd cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys 1 o'r dangosyddion cenedlaethol sef y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau

ysgol am ddim. Mae adroddiad cyntaf o lesiant Cymru, sydd yn asesu ein cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant, wedi'i gyhoeddi [yma](#)

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig - [Sut mae mesur cynnydd cenedl? - Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a wneir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Rhagor o Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn fod yn naratif i ategu'r dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau o lesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Gwybodaeth bellach

Mae'r ddogfen ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/examination-results/?lang=cy>

Diweddariad nesaf

Hydref 2019 (dros dro)

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch eich sylwadau drwy e-bost i ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r cynnwys cyfan ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#), ac eithrio lle nodir fel arall.

